

Rhan F – Ar ôl datgan y canlyniadau

Etholiadau ar gyfer Cynulliad
Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr
Heddlu a Throseddu ar 5 Mai 2016:
canllawiau i Swyddogion Canlyniadau

Ionawr 2016

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mawrth 2016	Wedi ei ailgyhoeddi i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol	DD/G
Mehfin 2016	Wedi'i ddiweddarau i newid y rhif ffôn ar gyfer y swyddfa deisebau etholiadol	3.8

Cynnwys

1	Storio a gwaredu dogfennau	1
	Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon.....	2
2	Gweithgarwch ar ôl yr etholiad.....	5
	Rhoi hysbysiad o'r canlyniadau	5
	Dosbarthu tystysgrifau i Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru	6
	Ernesau	7
	Etholiad i'r Cynulliad	7
	Etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	8
	Datganiadau ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post.....	8
	Casglu data ac adborth	9
	Cyfrif am yr etholiadau	9
	Talu credydwr	10
	Talu ffioedd i staff	10
	Dychwelyd cyfarpar	10
	Gwariant etholiadol ymgeiswyr a phleidiau	11
	Etholiad i'r Cynulliad	11
	Etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	13
3	Herio canlyniadau etholiad	15
	Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol mewn etholiad i'r Cynulliad, ac ar ba sail?	15
	Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac ar ba seiliau?.....	15
	Pwy fydd yr atebydd?	16
	Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deisebau	16
	Penderfyniad anghymhwyso barnwrol.....	16
4	Adolygu gweithdrefnau etholiad	17
5	Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	19

1 Storio a gwaredu dogfennau

1.1 Rhaid i'r ddogfennaeth etholiad a restrir ym mharagraffau **1.8, 1.9 a 1.11** isod gael ei chadw'n ddiogel am flwyddyn.

1.2 Rhaid i ddogfennau etholiad gael eu hanfon at y swyddogion cofrestru perthnasol. Y swyddog cofrestru perthnasol yw:¹

O ran yr etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru²

- swyddog cofrestru'r awdurdod lleol y mae'r etholaeth wedi'i lleoli yn ei ardal, neu
- os bydd yr etholaeth yn cynnwys rhan o ardal mwy nag un awdurdod lleol, swyddog cofrestru'r awdurdod lleol lle y mae'r nifer fwyaf o etholwyr wedi'u cofrestru.

O ran yr Etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd³

- swyddog cofrestru'r awdurdod lleol sy'n cynnwys yr ardal bleidleisio, neu
- os yw'r ardal bleidleisio yn cynnwys rhan o ardal mwy nag un awdurdod lleol, swyddog cofrestru'r awdurdod lleol lle y mae'r nifer fwyaf o etholwyr wedi'u cofrestru

1.3 Os nad chi yw'r swyddog cofrestru perthnasol, dylech gysylltu ag ef/hi ar gam cynnar i roi trefniadau ar waith i anfon y dogfennau rhagnodedig ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan. Dylech sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac y rhoddir cyfrif amdani wrth iddi gael ei hanfon at y swyddog cofrestru perthnasol.

1.4 Sut bynnag, dylech gynnal trywydd archwilio clir wrth becynnu ac anfon y dogfennau gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd dod o hyd i ddogfennau'n hawdd os bydd unrhyw un yn dymuno archwilio'r dogfennau cyhoeddus. Dylai'r system becynnu a labelu a ddefnyddiwyd ddarparu dull storio diogel a chefnogi proses adfer amserol.

1.5 Gellir sicrhau llwybr archwilio clir a phroses dryloyw drwy wneud y canlynol:

- Paratoi labeli clir ar gyfer pob paced.^{4 5 6 7} Rhaid i chi selio'r holl ddogfennaeth berthnasol mewn pacedi ar wahân ac atodi disgrifiad o gynnwys pob paced iddo, dyddiad yr etholiad a'r etholiadau y mae'n berthynol iddo ac iddynt. O ran yr etholiad i'r Cynulliad, rhaid i'r label hefyd gynnwys enw etholaeth y Cynulliad, neu os yw'r paced yn ymwneud ag etholiad rhanbarthol, enw'r rhanbarth. O ran yr etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rhaid i'r label hefyd gynnwys enw ardal yr heddlu.

At hynny, dylai'r labeli nodi pa mor hir y bydd angen cadw'r paced a phryd y bydd angen ei ddinistrio (oni chyfarwyddir fel arall drwy orchymyn llys). Dylai'r labeli ar gyfer dogfennau y gall y cyhoedd eu gweld a'r labeli ar gyfer dogfennau na all y cyhoedd eu gweld fod yn wahanol. Fel gofyniad sylfaenol, dylai'r pacedi sy'n cynnwys dogfennau na all y cyhoedd eu gweld nodi'r ffaith hon yn glir.

- Sicrhau eich bod wedi ystyried y gwaith o becynnu'r dogfennau wrth gynllunio eich prosesau dilysu a chyfrif.
- Ymdrin â chyfarwyddiadau pacio fel rhan o'ch hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ac wrth hyfforddi goruchwylwyr pleidleisiau post a chyfrif. Dylai darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig helpu hefyd i leihau'r risg y caiff dogfennau eu pacio'n anghywir. Mae [templed o ganllaw graffigol ar ddeunyddiau pecynnu ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio](#) hefyd ar gael, y gallech ei addasu a'i roi i staff gorsafoedd pleidleisio.
- Creu rhestr o'r holl ddogfennau i'w hanfon. Dylech gadw cofnod o'r holl ddeunyddiau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon at y swyddog cofrestru perthnasol er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif am yr holl eitemau. Mae paragraffau **1.8**, **1.9** ac **1.11** isod yn darparu rhestrau o'r dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w cadw. Dylech hefyd wneud y canlynol:
 - cofnodi nifer y parseli rydych wedi eu hanfon
 - cofnodi manylion y swyddog cofrestru perthnasol y cawsant eu hanfon ato/ati
 - cael derbynneb gan y swyddog cofrestru perthnasol sy'n nodi bod y parseli wedi cael eu derbyn yn ddiogel

1.6 Dylai pob paced a chynhwysydd sy'n cynnwys dogfennau etholiad gael eu storio'n ddiogel cyn eu trosglwyddo i'r swyddog cofrestru perthnasol fel na all unrhyw un heb awdurdod ymyrryd â hwy.

Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon

1.7 Rhaid i chi selio'r dogfennau etholiad a restrir isod ac, ar ôl cwblhau cyfrif y papurau pleidleisio, rhaid i chi eu hanfon at y swyddog cofrestru perthnasol.

1.8 O'r gorsafoedd pleidleisio:

- y paced sy'n cynnwys:⁸
 - rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd
 - rhestr o bleidleiswyr ag anabledau a gynorthwywyd gan gymdeithion
 - y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anabledau
 - rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu

- y datganiadau yn ymwneud â phleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
 - y rhestr o bobl yr anfonir papurau pleidleisio atynt ar ôl i wall clercol gael ei gywiro neu o ganlyniad i benderfyniad ar apêl i'r llys
- copïau wedi eu marcio o'r gofrestr etholwyr, y rhestr wedi ei marcio o ddirprwyon ac unrhyw hysbysiadau copïau wedi'u marcio o ganlyniad i gywiro gwall clercol neu benderfyniad ar apêl i'r llys
 - y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y gorsafoedd pleidleisio wedi'u cwblhau
 - tystysgrifau cyflogaeth y rhai ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio

1.9 O'r prosesau o ddsbarthu ac agor pleidleisiau post:⁹

- copïau wedi'u marcio o restr y pleidleiswyr post a rhestr y pleidleiswyr post drwy ddirprwy
- y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y pleidleisiau post wedi'u cwblhau
- y pacedi o ddatganiadau pleidleisiau drwy'r post a dderbyniwyd fel rhai dilys
- y pacedi o bleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd
- y pacedi o amlenni papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd
- y rhestrau o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd, a gollwyd ac a ddifethwyd
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r dogfennau ategol
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd a oedd yn cynnwys unrhyw ran o'r pecyn pleidleisio drwy'r post nas collwyd ac a ddychwelwyd atoch cyn i chi anfon un arall yn ei le
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post, datganiadau ac amlenni a ganslwyd
- y pacedi o bapurau pleidleisio drwy'r post nas defnyddiwyd
- pecynnau pleidleisio drwy'r post nas agorwyd a dderbyniwyd ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio neu a ddychwelwyd fel rhai nas dosbarthwyd (gellir eu hanfon yn nes ymlaen)

1.10 Rhaid i chi hefyd anfon y datganiad ynglŷn â'r papurau pleidleisio drwy'r post a'r rhannau perthnasol o'r rhestr o bleidleisiau post a fethodd y gwiriadau dynodyddion at y swyddog cofrestru perthnasol, ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon y dogfennau etholiad uchod.¹⁰ Lle y bydd ardal etholaeth / ardal bleidleisio yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol, rhaid i chi anfon y cyfryw ddarnau o'r rhestr ag sy'n berthnasol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol hyn. Ar yr un pryd dylech hefyd anfon eich cofnod o unrhyw achosion lle rydych yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni o bosibl,

er mwyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael gwybod ym mha achosion na ddylai anfon hysbysiad o wrthod dynodydd pleidlais bost.



I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhestrau amrywiol sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post, gweler [Rhan D: Pleidleisio absennol](#).

1.11 O'r llysoedd, ac ar wahân ar gyfer pob etholiad etholaethol i'r Cynulliad, etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad ac etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd¹¹

- storio papurau pleidleisio ar wahân fel:
 - papurau pleidleisio a gyfrifwyd
 - papurau pleidleisio a wrthodwyd
 - papurau pleidleisio nas defnyddiwyd (rhai cyffredin a rhai a gyflwynwyd) a phapurau pleidleisio a ddifethwyd (a osodir gyda'i gilydd)
 - papurau pleidleisio a gyflwynwyd a gafodd eu defnyddio
- cyfrifon y papurau pleidleisio, canlyniad dilysu cyfrifon y papurau pleidleisio a'r datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd

1.12 Mae canllawiau ar gadw ac archwilio ar gyfer [etholiadau i'r Cynulliad](#) ac [etholiadau ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd](#) er mwyn helpu i drin y deunyddiau yn gywir ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan.

2 Gweithgarwch ar ôl yr etholiad

Rhoi hysbysiad o'r canlyniadau

2.1 O ran yr etholiad etholaethol i'r Cynulliad, rhaid i chi hysbysu'r cyhoedd o enw'r ymgeisydd a etholwyd, cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd. Dylech hefyd gynnwys y disgrifiad (os oes un) o bob ymgeisydd. Os yw'r ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'i enw a ddefnyddir yn gyffredin ar yr hysbysiad.¹²

2.2 Ar ôl cyflwyno'r cyfansymiau rhanbarthol ar gyfer eich etholaeth i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dylech hefyd hysbysu'r cyhoedd o'r cyfansymiau hyn.

2.3 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, o ran yr etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad, rhaid i chi hysbysu'r cyhoedd:¹³

- o enw pob ymgeisydd rhanbarthol unigol ac etholwyr
- enw pob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd rhestr plaid a etholwyd
- yn ôl etholaeth, nifer y pleidleisiau i bob ymgeisydd rhanbarthol unigol a phlaid, ynghyd â nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd

2.4 Os yw'r ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'i enw a ddefnyddir yn gyffredin ar yr hysbysiad.

2.5 Dylech sicrhau eich bod yn darparu copi o'r hysbysiad o ganlyniad rhanbarthol i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol er mwyn iddynt eu cyhoeddi'n lleol.

2.6 Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ar ôl trosglwyddo'r cyfansymiau lleol o'r cyfrif cyntaf a'r ail gyfrif i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, ac ar ôl i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu eich awdurdodi i wneud hynny, rhaid i chi hysbysu'r cyhoedd o'r canlynol:

- Ar ddiwedd y cyfrif cyntaf, cynnwys y datganiad am bleidleisiau ffafriaeth gyntaf i bob ymgeisydd a'r datganiad am bleidleisiau a wrthodwyd.
- Ar ddiwedd yr ail gyfrif, cynnwys y datganiad am bleidleisiau ail ffafriaeth i bob ymgeisydd sy'n weddill a'r datganiad am bleidleisiau a wrthodwyd.



Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â pharatoi'r datganiadau am bleidleisiau ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth ym Mhennod 6 o [Rhan E - Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

2.7 Yn yr etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n paratoi'r hysbysiad o ganlyniad. Rhaid i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu anfon copi o'r hysbysiad i Swyddogion Canlyniadau Lleol. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn copi o'r hysbysiad rhaid i chi hysbysu'r cyhoedd ohono yn eich ardal bleidleisio.¹⁴

2.8 Ym mhob achos, dylech sicrhau bod yr hysbysiadau ar gael i bawb sydd â diddordeb cyn gynted â phosibl, yn cynnwys drwy eu cyhoeddi ar wefan eich awdurdod lleol.



Er mwyn gallu cyflawni'r hyn a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwybod am y canlyniadau mewn ffordd glir ac amserol.

Er mwyn dangos bod modd i chi gyflawni'r hyn a nodwyd, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i gyfleu'r canlyniadau i bleidleiswyr.

Dosbarthu tystysgrifau i Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.9 Ar ôl i ganlyniad yr etholiad etholaethol i'r Cynulliad gael ei ddatgan, rhaid i chi gwblhau'r dystysgrif ethol ragnodedig (ffurflen 'CR') yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rhaid i'r dystysgrif nodi:¹⁵

- enw llawn yr ymgeisydd llwyddiannus
- yn achos ymgeisydd plaid llwyddiannus, enw'r blaid wleidyddol
- cyfeiriad yr ymgeisydd llwyddiannus

2.10 Os mai chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, ar ôl i ganlyniad yr etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad gael ei ddatgan, rhaid i chi gwblhau'r dystysgrif ethol ragnodedig (ffurflen 'CS') yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rhaid iddi nodi:¹⁶

- enw llawn pob ymgeisydd llwyddiannus
- yn achos ymgeiswyr rhestr plaid llwyddiannus, enw'r blaid wleidyddol
- cyfeiriad pob ymgeisydd llwyddiannus

2.11 Ym mhob achos, dylid anfon copi o'r dystysgrif berthnasol at Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru mor fuan â phosibl, o ystyried o gall y broses o dyngu llw teyrngarwch neu'r cadarnhad cyfatebol ddechrau mor gynnar ag 8am ar y diwrnod ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan.

2.12 Mae Clerc y Cynulliad wedi gofyn i chi anfon copi llofnodedig o'r dystysgrif wedi'i chwblhau ar ffurf delwedd wedi'i sganio a atodir i neges e-bost yn union ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan i:

Certificates@Assembly.Wales neu Tystysgrifau@Cynulliad.Cymru

2.13 Rhoddwyd rhifau ffacs wrth gefn:

Ffacs: 0300 200 6108 neu 0300 200 7388

2.14 Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth anfon y copïau o'r tystysgrifau i'r Cynulliad, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses hon, cysylltwch ag:

Andrew Minnis
Ffôn: 0300 200 6314

2.15 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid i chi hefyd ddsbarthu, neu beri dosbarthu, y dystysgrif wreiddiol wedi'i chwblhau o'r etholiad etholaethol neu'r etholiad rhanbarthol (fel y bo'n briodol) i:¹⁷

Y Prif Weithredwr a Chlerc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ernesau¹⁸

Etholiad i'r Cynulliad

2.16 Rhaid i'r ernes o £500 a roddwyd gan neu ar ran ymgeisydd mewn etholiad etholaethol i'r Cynulliad gael ei dychwelyd os cafodd yr ymgeisydd fwy na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn yr etholaeth. Os cafodd yr ymgeisydd nifer o bleidleisiau a oedd yn hafal i 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd neu'n llai na hynny, rhaid peidio â dychwelyd yr ernes.

2.17 Os cafodd yr ymgeisydd mewn etholiad etholaethol i'r Cynulliad fwy na 5% o'r pleidleisiau dilys a fwriwyd, rhaid i chi ddychwelyd yr ernes i'r unigolyn a'i rhoddodd erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan.

2.18 Rhaid i'r ernes o £500 a roddwyd gan neu ar ran ymgeisydd rhanbarthol unigol neu blaid wleidyddol gofrestrdig mewn etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad gael ei dychwelyd os cafodd yr ymgeisydd unigol neu'r blaid fwy na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn y rhanbarth. Os cafodd yr ymgeisydd unigol neu'r blaid nifer o bleidleisiau a oedd yn hafal i 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd neu'n llai na hynny, rhaid peidio â dychwelyd yr ernes.

2.19 Os cafodd ymgeisydd unigol mewn etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad fwy na 5% o'r pleidleisiau dilys a fwriwyd, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddychwelyd yr ernes i'r unigolyn a'i rhoddodd erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan. Os cafodd rhestr plaid fwy na 5% o'r pleidleisiau dilys a fwriwyd, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ddychwelyd yr ernes i Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan.

2.20 Ym mhob achos, os byddwch yn dychwelyd ernes ar ffurf siec, ystyrir y caiff ei dychwelyd ar y diwrnod y caiff y siec ei phostio.

Ernesau a gollwyd

2.21 Os na fydd ymgeisydd mewn etholiad etholaethol i'r Cynulliad neu ymgeisydd unigol neu blaid mewn etholiad rhanbarthol i'r Cynulliad yn cael mwy na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd, caiff eu hernes ei rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Caiff manylion y broses hon eu cynnwys yn y canllawiau ar Ffioedd a Thaliadau ar gyfer yr etholiad, a gaiff eu darparu gan Lywodraeth Cymru.

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

2.22 Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n gyfrifol am reoli'r broses o ddychwelyd neu beidio â dychwelyd ernesau mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau



Ceir canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar reoli'r broses o ddychwelyd neu beidio â dychwelyd ernesau ym mhennod 8 o'r [canllawiau i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu: ar gyflawni prosesau allweddol](#).

Datganiadau ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post

2.23 Rhaid i chi gwblhau datganiad ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiadau i'r Cynulliad a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn eich etholaeth ac yn eich ardal bleidleisio.¹⁹ Hyd yn oed lle y cafodd y broses o ddsbarthu pleidleisiau post ei chyfuno, mae'n ofynnol o hyd i chi baratoi datganiad ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y ddau etholiad.

2.24 Mae'r dogfennau hyn yn hanfodol i gyfrif am bleidleisiau post a sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt. Dylai'r datganiadau fod yn rhan o'r trefniadau sydd ar waith gennych i gynnal trywydd archwilio clir o brosesau pleidleisio drwy'r post a chyfrif pleidleisiau post. Dylech gwblhau'r datganiadau'n gywir gan

ddefnyddio'r ffigurau a gofnodwyd wrth ddsbarthu, derbyn, agor a dilysu pleidleisiau post.



Ceir rhagor o fanylion am gadw cofnodion wrth weinyddu'r broses pleidleisio drwy'r post yn [Rhan D - Pleidleisio absennol](#).

2.25 Mae'r Comisiwn wedi paratoi templed o ddatganiad ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr [etholiadau i'r Cynulliad](#) a'r [etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd](#), y dylid ei ddefnyddio. Dylai'r nodiadau canllaw ategol eich helpu i gwblhau'r rhain.

2.26 Rhaid i chi roi copi o'r datganiad ar gyfer yr etholiadau i'r Cynulliad, yn Gymraeg neu yn Saesneg, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac i'r Comisiwn. Rhaid i chi hefyd roi copi o'r datganiad ynglŷn â'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Comisiwn Etholiadol. Caiff manylion ynglŷn â sut y dylid rhoi copïau i'r Comisiwn eu darparu drwy Fwletin.

2.27 Rhaid peidio â rhoi'r datganiadau cyn 19 Mai 2016 a rhaid iddynt gyrraedd erbyn 26 Mai 2016 fan bellaf.²⁰

Casglu data ac adborth

2.28 Gofynnir i chi hefyd anfon gwybodaeth a data i'r Comisiwn ynglŷn â'r etholiadau.

2.29 Caiff ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth a data, a nodiadau canllaw ategol ar gyfer eu cwblhau, yn ogystal â ffurflen adborth y Comisiwn, eu dosbarthu ar wahân a byddant hefyd [ar gael ar wefan y Comisiwn](#).

Cyfrif am yr etholiadau

2.30 Ariennir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru a bydd yn darparu canllawiau a chyfarwyddiadau i gyfrif am yr etholiad. Os bydd angen i chi gysylltu â Llywodraeth Cymru, gallwch siarad â frank.cuthbert@wales.gsi.gov.uk.

2.31 Ariennir etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd gan Lywodraeth y DU a chaiff hawliadau am ffioedd a thaliadau eu gweinyddu drwy'r Uned Hawliadau Etholiadau, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet. Caiff canllawiau a chyfarwyddiadau manwl i gyfrif am yr etholiad, gan gynnwys sut i ddsrannu costau lle caiff etholiadau eu cyfuno, eu darparu gan Swyddfa'r Cabinet. Mae manylion cyswllt yr Uned Hawliadau Etholiadau fel a ganlyn:

E-bost: returning.officers@cabinetoffice.gov.uk

Electoral Claims Unit, Cabinet Office

Ground Floor Roseberry Court
St Andrews Business Park
Central Avenue
Norwich
NR7 0HS

Talu credydwyr

2.32 Dylech gadw derbynebaw cyn cyfnod yr etholiadau a thrwy gydol cyfnod yr etholiadau gyfer pob gwasanaeth/gwaith a ddarparwyd, a thalu pob credydwr cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau.

Talu ffioedd i staff

Treth incwm

2.33 Mae newidiadau i drefniadau treth incwm yn cynnwys dod â'r datganiad dim rhwymedigaeth treth cyfredol i ben (P527) a rhoi rhestr wirio dechreuwr safonol yn ei le a gyhoeddir ar adeg y penodiad, a dim ond unwaith y bydd yn rhaid gwneud hyn yn hytrach na'i adolygu bob blwyddyn fel y gwneir gyda'r P527. Ni chaiff ffurflen P528, a roddir ar hyn o bryd yn lle P60, ei defnyddio mwyach, ond bydd angen i chi roi ffurflen P60 i'r cyflogai ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Gwybodaeth amser real CThEM

2.34 Bydd pob taliad etholiad a wneir yn y flwyddyn dreth sy'n dechrau ym mis Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i system taliadau treth gwybodaeth amser real CThEM. Dylech sicrhau eich bod yn cysylltu ag adrannau cyllid ac adnoddau dynol eich awdurdod lleol er mwyn sicrhau y gallwch gydymffurfio â'r rheolau treth ar gyfer pob un o'ch cyflogeion, gan gynnwys unrhyw staff dros dro a staff contract tymor byr. Ceir canllawiau pellach gan [CThEM](#).

Cofrestru'n awtomatig mewn pensiwn yn y gweithle

2.35 Rhaid i bob cyflogwr sydd â staff sy'n gweithio yn y DU gydymffurfio â'r gofynion o ran cofrestru'n awtomatig. Ceir canllawiau pellach gan [y Rheoleiddiwr Pensiynau](#).

Dychwelyd cyfarpar

2.36 Dylech wneud trefniadau i dychwelyd unrhyw gyfarpar, fel blychau pleidleisio gwag, i'w man storio.

Gwariant etholiadol ymgeiswyr a phleidiau

Etholiad i'r Cynulliad

2.37 Ceir terfynau uchaf cyfreithiol ar wariant ymgeiswyr a phleidleisiau yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholaeth neu ymgeiswyr rhestr ranbarthol unigol yn cyfrif am eu gwariant a'u rhoddion eu hunain, ond y blaid sy'n gyfrif am wariant i hyrwyddo ymgeiswyr rhestr plaid ranbarthol a'r blaid yn gyffredinol.

2.38 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfiaeth ymgeiswyr â rheolau ynglŷn â gwariant a rhoddion, ac mae'n rheoleiddio gwariant a phrosesau codi arian pleidiau.

2.39 Rydym wedi paratoi canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar wariant yn ystod etholiadau a'r ffurflenni angenrheidiol; at hynny, gall ymgeiswyr ac asiantiaid lawrlwytho'r ffurflen gwariant etholiad i ymgeiswyr ynghyd â nodiadau esboniadol, y datganiad gan yr asiant etholiadol ynglŷn â gwariant ar yr etholiad a'r datganiad gan yr ymgeisydd ynglŷn â'i (g)wariant ar yr etholiad. Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael ar [ein gwefan](#) i'w lawrlwytho.



Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â therfynau gwariant i ymgeiswyr yn [Rhan 3](#) o'n canllawiau i ymgeisydd ac asiantiaid. Rydym wedi paratoi [canllawiau i bleidiau gwleidyddol](#) sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am derfynau gwariant i bleidiau.

2.40 Rhaid i asiantiaid etholiadol ymgeiswyr etholaethol y Cynulliad anfon ffurflen gwariant ymgeisydd atoch, ynghyd â'r anfonebau a'r derbynebion perthnasol, o fewn 35 diwrnod calendr i ddatgan canlyniad yr etholiad, h.y. erbyn dydd Iau 9 Mehefin os caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Iau 5 Mai, neu erbyn dydd Gwener 10 Mehefin, os caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Gwener 6 Mai.²¹

2.41 Rhaid i asiantiaid etholiadol ymgeiswyr unigol yn yr etholiad ranbarthol i'r Cynulliad anfon ffurflen gwariant ymgeisydd at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ynghyd â'r anfonebau a'r derbynebion perthnasol, o fewn 35 diwrnod calendr i ddatgan canlyniad yr etholiad, h.y. erbyn dydd Iau 9 Mehefin os caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Iau 5 Mai, neu erbyn dydd Gwener 10 Mehefin os caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Gwener 6 Mai.²²

2.42 Rhaid i asiantiaid etholiadol ac ymgeiswyr yn yr etholiadau i'r Cynulliad anfon datganiadau yn cadarnhau gwariant yr ymgeisydd ar yr etholiad fel a ganlyn:

- Rhaid i ymgeiswyr etholaethol ac asiantiaid etholiadol anfon eu datganiadau at y Swyddog Canlyniadau Etholaethol²³

- Rhaid i ymgeiswyr rhanbarthol unigol a'u hasiantiaid etholiadol anfon eu datganiadau at y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol²⁴

2.43 Ym mhob achos, rhaid i ddatganiad yr asiant etholiadol gael ei anfon ar yr un pryd â'r ffurflen. Rhaid i ddatganiad pob ymgeisydd gael ei anfon o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl i'r asiant etholiadol gyflwyno'r ffurflen. Fodd bynnag, os bydd yr ymgeisydd y tu allan i'r DU pan gaiff y ffurflen ei hanfon atoch, caiff wneud y datganiad o fewn 14 diwrnod ar ôl dychwelyd i'r DU a'i anfon atoch mor fuan â phosibl.²⁵

2.44 O fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl i'r blaid gyflwyno ei ffurflen gwariant i'r Comisiwn, rhaid i ymgeiswyr ar restr plaid ranbarthol gyflwyno datganiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn nodi bod y ffurflen yn gywir hyd eithaf eu gwytodaeth.

2.45 Ar gyfer pleidiau sy'n gwario £250,000 neu lai na hynny, rhaid dychwelyd ffurflen y blaid erbyn 5 Awst, ac ar gyfer pleidiau sy'n gwario dros £250,000, rhaid dychwelyd ffurflen y blaid erbyn 5 Tachwedd. Yn y naill achos a'r llall, cyflwynir y ffurflen yn uniongyrchol i'r Comisiwn.

2.46 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol anfon copïau o ffurflenni gwariant etholiad a datganiadau i'r Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r ffurflen neu'r datganiad ddod i law.²⁶

2.47 Dylai copïau o ffurflenni gwariant a datganiadau gael eu hanfon drwy e-bost i candidates@electoralcommission.org.uk. Fel arall, gallwch bostio'r rhain i:

Cyllid Pleidiau ac Etholiadau
Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ'r Cwmnïau
Crown Way
Caerdydd
CF14 3UZ

2.48 A fyddoch cystal â chyflwyno'r wybodaeth ganlynol hefyd er mwyn i ni allu cyflawni ein dyletswyddau ynglŷn â chydymffurfiaeth:

- ffigurau etholwyr ar gyfer pob etholaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo terfyn gwariant yr ymgeiswyr
- y terfyn gwariant i ymgeiswyr a roddwyd i ymgeiswyr, os yw hynny'n gymwys
- rhestr o'r holl ymgeiswyr a safodd etholiad, gan gynnwys eu plaid a'r disgrifiad ohonynt (os oes un) a ph'un a gawsant eu hethol
- cadarnhad ynglŷn â phwy sydd wedi methu ag anfon ffurflen neu ddatganiad, wedi anfon ffurflen anghyflawn, neu wedi anfon ffurflen neu ddatganiad yn hwyr a beth rydych eisoes wedi'i wneud, os o gwbl, ynglŷn ag achosion o'r fath

- cyfeiriadau asiantiaid etholiadol ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sydd wedi methu ag anfon ffurflenni
- cyfeiriadau unrhyw ymgeiswyr ar restr plaid ranbarthol nad ydynt wedi cwblhau eu datganiad

2.49 Rhaid i chi gadw copi o bob ffurflen gwariant etholiad a datganiad, ac unrhyw ddogfennau atodol, am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad yr anfonwyd y ffurflen ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, sicrhau bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ar ôl talu ffi o £1.50. Gall unrhyw un hefyd ofyn am gopïau o'r ffurflenni neu'r datganiadau ac unrhyw ddogfennau atodol, y mae'n rhaid eu darparu os telir ffi o 15c y dudalen. Rhaid dileu cyfeiriadau unigolion sydd wedi gwneud rhoddion i ymgeiswyr o bob copi i'w archwilio a phob copi a ddarperir ar gais. Ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd, os bydd yr ymgeisydd neu'r asiant etholiadol perthnasol yn gofyn amdanynt, rhaid iddynt gael eu dychwelyd i'r ymgeisydd. Fel arall, caiff y ffurflenni, y datganiadau a'r dogfennau ategol eu dinistrio.²⁷

Ffurflenni gwariant i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

2.50 O dan Erthygl 46 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, caiff unigolion a sefydliadau (a elwir yn 'ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau' wario hyd at £500 yn ymgyrchu dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth benodol, neu, £1,000 mewn rhanbarth, heb awdurdodaeth yr asiant etholiadol.

2.51 Rhaid i'r asiant etholiadol dros yr etholaeth berthnasol neu'r ymgeisydd rhanbarthol unigol sy'n cael budd o'r ymgyrch awdurdodi'n ysgrifenedig unrhyw wariant uwchlaw'r symiau hyn. Pan fydd ymgyrchydd lleol nad yw'n blaid yn gwario uwchlaw'r trothwyon hyn, rhaid iddo/iddi gyflwyno ffurflen i chi sy'n datgan swm y treuliau etholiad y mae asiant yr ymgeisydd wedi eu hawdurdodi i'w wario, ynghyd â chopi o'r awdurdodaeth ysgrifenedig a roddwyd gan yr asiant etholiadol. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl i'r canlyniad gael ei ddatgan.



Ceir [Canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#) ar wefan y Comisiwn.

Etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

2.52 Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n gyfrifol am ymdrin â ffurflenni gwariant ymgeiswyr.



Ceir canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu ar eu cyfrifoldebau ôl-etholiadol ym mhennod 8 o'r [canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu: ar gyflawni prosesau allweddol](#).



3 Herio canlyniadau etholiad

3.1 Gellir defnyddio deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiadau.

Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol mewn etholiad i'r Cynulliad, ac ar ba sail?

3.2 Gall deiseb etholiadol ar gyfer etholiad i'r Cynulliad gael ei chyflwyno gan:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- rywun sy'n honni bod ganddo hawl i gael ei ethol yn yr etholiad, neu
- rywun a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad neu yr oedd ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw etholwr a gofrestrwyd yn ddiennw²⁸

3.3 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw bod y canlynol wedi digwydd:

- etholiad amhriodol, neu
- ganlyniad amhriodol²⁹

Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac ar ba seiliau?

3.4 Gall deiseb etholiadol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu gael ei chyflwyno gan:

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- bedwar neu fwy o bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad neu yr oedd ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw am etholwyr a gofrestrwyd yn ddiennw³⁰

3.5 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw:

- nad oedd yr unigolyn y codwyd amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i iawn ethol
- bod yr unigolyn y codwyd amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i anghymhwysu ar adeg yr etholiad
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd arferion llwgr neu anghyfreithlon neu ar y seiliau a nodir yn Adrannau 164 a 165 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)

Pwy fydd yr atebydd?

3.6 Y tebyg yw y caiff yr unigolyn y codwyd amheuaeth ynghylch ei ethol ei wneud yn atebydd i'r ddeiseb. Os bydd y ddeiseb yn ymwneud â threfn cynnal yr etholiad, efallai y bydd y Swyddog(ion) Canlyniadau perthnasol, (boed hynny'n Swyddog Canlyniadau Etholaethol, yn Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn Swyddog Canlyniadau Lleol neu'n Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu) hefyd yn atebydd i'r ddeiseb.³¹

Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deisebau

3.7 Fel arfer, rhaid i ddeiseb mewn etholiad i'r Cynulliad gael ei chyflwyno o fewn 21 diwrnod ar ôl i enw'r ymgeisydd etholedig gael ei ddychwelyd i'r Clerc.³² Fel arfer, rhaid i ddeiseb mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddau gael ei chyflwyno o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.³³

3.8 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno deiseb etholiadol i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun. Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol a'r broses o gyflwyno deisebau, gan gynnwys cadarnhad ynglŷn â'r dyddiadau cau, dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7947 6877

Penderfyniad anghymhwysu barnwrol

3.9 Caiff unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod Aelod Cynulliad neu Gomisiynydd Heddlu a Throseddau yn anghymwys i fod yn Aelod Cynulliad neu Gomisiynydd Heddlu a Throseddau (fel y bo'n briodol), neu wedi dod yn anghymwys unrhyw bryd ers ei ethol.

3.10 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am ddatganiad anghymhwysu barnwrol geisio ei gyngor ei hun.

4 Adolygu gweithdrefnau etholiad

4.1 Dylech gynnal gwerthusiad trylwyr o'r holl brosesau a amlinellir yn eich cynllun prosiect, gan geisio adborth gan randdeiliaid priodol, a llunio dogfen ar y gwersi a ddysgwyd a gaiff ei defnyddio i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

4.2 Mae'r Comisiwn wedi darparu, fel rhan o'r [templed ar gyfer cynllun prosiect](#), rai amcanion enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiadau wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnwys cynllun gwerthuso fel rhan o'r templed ar gyfer cynllun prosiect i'ch helpu gyda'r broses adolygu.



Er mwyn cyflawni'r hyn a nodir yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi werthuso'r ffordd y cynlluniwyd ar gyfer pleidleisiau blaenorol ac y cynhaliwyd pleidleisiau blaenorol a nodi gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddarau'r cynlluniau yn ôl yr angen.

Er mwyn dangos bod modd cyflawni'r hyn a nodir bydd angen i chi roi dogfennaeth gynllunio ar waith sy'n adlewyrchu gwersi a ddysgwyd.

Yr adolygiad

4.3 Dylai'r adolygiad gwmpasu pob agwedd ar yr etholiadau. Dylai eich cynllun prosiect gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad, a dylai pob proses y cynlluniwyd ar ei chyfer ac a gyflawnwyd gael ei hadolygu.

4.4 Rhan allweddol o'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

4.5 Dylech dalu sylw arbennig i adolygu'r canlynol:

- eich gwaith cynllunio prosiect
- p'un a oeddech yn gallu sicrhau digon o adnoddau
- os yw eich etholaeth neu'ch ardal bleidleisio yn croesi ffin awdurdod lleol, beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella wrth weithio gyda staff etholiadol o awdurdod lleol arall/awdurdodau lleol eraill
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol dros ran o'ch etholaeth neu'ch ardal bleidleisio neu'r cyfan ohoni hefyd, beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella wrth weithio gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a/neu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd, beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella wrth weithio gyda hwy
- sut y cafodd contractwyr eu rheoli ac a wnaethant gyflawni gwaith yn unol â'r fanyleb ofynnol

- y cyfarpar a'r deunydd swyddfa a ddefnyddiwyd
- recriwtio a hyfforddi staff
- addasrwydd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- y gwaith o reoli enwebiadau, gorsafoedd pleidleisio, y broses pleidleisio absennol, a'r broses dilysu a chyfrif
- y gwaith o brosesu ac ymdrin ag ymholiadau
- unrhyw faterion a effeithiodd ar ddiogelwch/uniondeb yr etholiadau

4.6 Fel rhan o'r adolygiad dylech geisio adborth gan randdeiliaid priodol.

4.7 Dylech geisio adborth gan y canlynol:

- eich staff ac, os yw eich etholaeth neu'ch ardal bleidleisio yn croesi ffin awdurdod lleol, staff etholiadol o'r awdurdod lleol arall/awdurdodau lleol eraill
- os nad chi yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff
- os nad chi yw Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu a'i staff
- etholwyr
- ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol
- sefydliadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau ethnig lleiafrifol, a swyddogion mynediad y cyngor

4.8 Er mwyn cael adborth gan eich staff, er enghraifft, dylech ystyried gwahodd nifer ohonynt, gan gynnwys staff gorsafoedd pleidleisio, i ddod i gael trafodaeth er mwyn ymdrin â phob agwedd ar y broses sy'n ymwneud â gorsafoedd pleidleisio, o'r sesiynau hyfforddi a briffio hyd at ddelio â sefyllfaoedd anodd ar y diwrnod pleidleisio. Gallech hefyd ystyried unrhyw adborth a ddarparwyd mewn adroddiadau a gyflwynwyd gan Swyddogion Llywyddu ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio.

4.9 Ar ôl i chi adolygu pob agwedd ar yr etholiad a cheisio adborth gan randdeiliaid priodol, dylech lunio dogfen yn nodi'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r ddogfen honno gynnwys dadansoddiad o ba arferion fu'n llwyddiannus a ble arall y gellid eu defnyddio, beth fydddech chi'n ei wneud eto neu'n wahanol, ac argymhellion allweddol. Dylai'r adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd gael ei ddefnyddio wedyn i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

5 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

5.1 Ar ôl yr etholiadau efallai y cewch geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O dan y Ddeddf hon, nid awdurdod cyhoeddus yw Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol na Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac, fel y cyfryw, maent wedi'u heithrio rhag y gofynion datgelu a osodir ganddi.

5.2 Fodd bynnag, lle y bo modd, dylai Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ar yr amod bod y wybodaeth hon eisoes yn eiddo i'r cyhoedd, neu ar yr amod nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol. Enghraifft o ddata nad yw'n bersonol fyddai data ystadegol yn dangos cyfanswm nifer yr etholwyr a gofrestrwyd yn eich ardal neu nifer y pleidleiswyr post.

¹ Rheol 69 atod 5 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a rheol 68 atod 3 Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012 (rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu)

² Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 a44

³ Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 a44

⁴ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 65(1) Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 65(1)

⁵ Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 66

⁶ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 67

⁷ Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 66

⁸ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 53 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 47

⁹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 3 rheolau 12,14,15,20,29 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 2 rheolau 39,41,42,42A,57

¹⁰ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 3 rheolau 27 a 31 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 2 rheolau 55 a 59

¹¹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheolau 66 a 67 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheolau 74 a 65

¹³ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 64

¹⁴ Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 62

¹⁵ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 62

¹⁶ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 64

¹⁷ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 62 a 64

¹⁸ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 65 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 3 rheol 63

¹⁹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 31 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 2 rheol 59

²⁰ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru atod 5 rheol 31 Rheolau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu atod 2 rheol 59

²¹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 52

²² Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 52 a 54

²³ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 53

-
- ²⁴ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 54
²⁵ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 53 a 54
²⁶ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 60
²⁷ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 62
²⁸ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 87
²⁹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 86
³⁰ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a128
³¹ Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 87
³² Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Erth 88
³³ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a129